Dyma ychydig o sylwadau:

"Roedd mynd allan yng nghanol tyrfaoedd yn codi ofn arna'i — felly cysylltais â Thai Esgyn a gofynnais am rywun a oedd yn deall i'm cynorthwyo i wylio fy hoff dîm peldroed. Roeddwn yn gallu prynu'r cymorth fesul gêm. Nawr rwy'n edrych ymlaen at bob penwythnos!"

"Cysylltais â Thai Esgyn er mwyn gofyn am ychydig o gymorth ychwanegol i'm mab - roeddwn yn bryderus yn ei gylch oherwydd nid oedd ef wedi byw ar ei ben ei hun o'r blaen. Bellach, ar ôl gweithio am gyfnod gydag aelod o staff Tai Esgyn, mae e wedi dysgu sut i gyllido ac yn gallu gwneud ei siopa ei hun ."

"Wrth ychwanegu ychydig at fy Nhaliadau Uniongyrchol, cefais aelod o staff Tai Esgyn i'm cynorthwyo i fynychu dosbarth nos. Cefais gyfle i gyfarfod â mwy o bobl a dysgu sgiliau newydd."

Gwybodaeth Bellach

Os hoffech gael gwybodaeth bellach am unrhyw beth yn y pamffled hwn, ffoniwch y rhif isod a gofynnwch am Simon Rogers neu Eryl Pellow. Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn print bras, breil neu unrhyw iaith arall, cysylltwch eto â'r swyddfa ar y rhif isod.

Tai Esgyn, Tŷ Beaufort
Heol Beaufort, Abertawe
SA6 8JG
(01792) 798656

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Tai Esgyn Housing

Sut y gall Tai Esgyn eich Helpu

Gofalu am eich Iechyd Meddwl

Create PDF files without this message by purchasing novaPDF printer (http://www.novapdf.com)

Oes arnoch chi

neu rywun yr ydych

yn ei adnabod

angen cymorth gyda'ch iechyd meddwl?

Gall Tai Esgyn eich helpu.

Bydd angen cymorth gyda'n hiechyd meddwl ar **1** mewn **4** ohonom yn ystod ein bywydau. Os bydd hyn yn digwydd i chi neu i rywun yr ydych yn ei adnabod, gall hyn wneud i chi deimlo'n unig - heb unrhyw syniad ble i droi am gymorth. Os ydych chi yn y sefyllfa hon, gall **Tai Esgyn** eich helpu.

Sefydlwyd **Tai Esgyn** yn 1977, a bellach mae gan y cwmni dros **Ddeng mlynedd ar hugain** o brofiad o ddarparu cymorth a llety i bobl sydd ag ystod eang o anghenion meddyliol a chorfforol.

Cydweithio

Bydd staff Tai Esgyn yn gweithio gyda chi yn eich cartref eich hun. Wrth siarad gyda chi a chyda'r bobl eraill sydd efallai yn eich cynorthwyo, bydd staff Tai Esgyn yn creu cynllun unigryw sydd yn amlinellu'r hyn yr ydych chi am ei gyflawni. Bydd staff Tai Esgyn yn gweithio gyda chi, er mwyn i chi gyrraedd eich nodau.

Pryd Bynnag - Yn ôl y Gofyn

Gall staff Tai Esgyn weithio gyda chi pa bryd bynnag mae'r angen yn codi — gallwch chi gael sawl ymweliad yn ystod y dydd, bob dydd.

Dod o hyd i gartref newydd

Os ydych yn chwilio am gartref newydd efallai y gall Tai Esgyn eich cynorthwyo i ddod o hyd i rywle i fyw.

'Yn gweithio gyda phobl i ddod yn bopeth yr oeddent yn meddwl y gallent fod — a mwy!'

www.taiesgyn.org.uk

Cwmni Cofrestredig rhif: 1296339
Elusen Gofrestredig rhif: 506076

Cyflawni Ynghyd

Gall staff Tai Esgyn weithio gyda chi i:

- **Geisio datrus unrhyw broblemau sydd gennych sy'n ymwneud â'ch cartref**
- **Gynnig cyngor ar gyllido a budd-daliadau**
- **Geisio cadw at eich Cynllun Gofal yn y Gymuned, os oes gennych un**
- **Fynychu cwrs coleg**
- **Ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**
- **Fynd siopa**
- **Fynd allan am bryd o fwyd neu i wylio'r gêm**
- **Fynd ar eich gwyliau**
- **Aros yn eich cartref eich hun os yw'r bobl sy'n edrych ar eich ôl fel arfer yn mynd ar eu gwyliau.**

Yn ogystal, gall staff Tai Esgyn weithio gyda chi:

- **Os ydych yn camdrin sylweddau**
- **Os oes gennych anghenion iechyd corfforol**
- **Os ydych yn anghofus**
- **Os oes angen ysbaid arnoch o'ch dyletswyddau gofalu.**

Tai Esgyn Housing

Pwy fydd yn talu?

Gallwch chi dalu am eich cymorth eich hun gan ddefnyddio eich arian, budd-daliadau, neu wrth ychwanegu ychydig at Daliadau Uniongyrchol.

Os ydych eisoes yn derbyn cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yr ydych chi'n gymwys, mae'n bosib y gall arian Cefnogi Pobl neu arian Gofal yn y Gymuned ariannu eich cymorth gan Tai Esgyn.

Os oes gennych anghenion iechyd ac yr ydych chi'n gymwys, mae'n bosib y gall arian Gofal Parhaol ariannu eich cymorth.

Os ydych yn teimlo bod angen cymorth arnoch ac ni fedrwch ei fforddio, efallai y bydd staff Tai Esgyn yn gallu eich cynorthwyo i ddod o hyd i ffyrdd eraill i'w ariannu.

Yn gweithio gyda Phobl i fwrw 'mlaen â Bywyd

Create PDF files without this message by purchasing novaPDF printer (http://www.novapdf.com)